



Strategaeth Adfywio Sir y Fflint

2009 – 2020



Cyngor Sir y Fflint | Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd y Sir | Yr Wyddgrug | Sir y Fflint | CH7 6NB

Cynnwys

Rhagair	4
Cefndir	5
Gweledigaeth	6
Targedau	10
Amcanion Strategol	11
Themâu trawsbynciol	30
Fframwaith monitro	32
Atodiad 1 Polisiâu a Strategaethau	34
Atodiad 2 Sail Tystiolaeth	35
Atodiad 3 Dadansoddiad ystadegol	36
Atodiad 4 Rhestr termau	42

Rhagair

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gwelwyd twf economaidd pendant yn Sir y Fflint ond, ers argyfwng 2008/9, fodd bynnag, rydym wedi wynebu cyfnod ansicr ac mae angen i ni weithio'n galed i gynnal y ffyniant rydym yn ei fwynhau ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, mae'r sir wedi llwyddo'n well na rhannau eraill o Gymru i wrthsefyll y newidiadau hynny ac mae'n elwa o'i sector cynhyrchu cryf sydd, yn fyd eang, wedi tyfu. Nid yw pob rhan o'r sir, fodd bynnag, wedi manteisio ar y ffyniant rydym wedi'i fwynhau dros y blynyddoedd.

Mae'r Strategaeth hon yn gosod allan fframwaith i'r Cyngor a'i bartneriaid ei ddefnyddio i lywio'r broses adfywio dros y deng mlynedd nesaf.

Sir Gymreig balch yw Sir y Fflint ac mae iddi hanes hir. Mae gennym gysylltiadau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd cryf ag ardaloedd dros y ffin yn Lloegr yn ogystal â siroedd cyfagos yng Nghymru. Rydym yn sylweddoli bod gennym fuddiannau cymdeithasol ac amgylcheddol cyffredin a byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'n cymdogion i ddiwallu anghenion ein sir, gan ddiogelu a gwella'n hamgylchedd ar yr un pryd.

Mae'r Cyngor Sir wedi gosod allan rhaglen feiddgar ac uchelgeisiol i'n cymunedau a'n pobl, yn enwedig o ystyried y cyfnod anodd sydd o'n blaenau. Mae gan y Cyngor rôl ganolog yn yr economi leol a bydd yn ymgymryd â'r rôl hon drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a drwy weithio mewn partneriaeth â chyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a bydd yn cynnig arweiniad clir a thryloyw i sicrhau bod y Sir yn ffynnu ymhellach.

Datblygwyd y Strategaeth hon drwy ymgynghori ag amrywiaeth o gyrff sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor. Fe'i cadwyd yn fwriadol gryno ac mae'n canolbwyntio ar y camau y mae angen eu cymryd. Rydym yn wynebu cyfnod economaidd mwy ansicr ac mae gweithredu ar lawr gwlad yn allweddol i'n llwyddiant.

Gwyddom y byddwn yn fwy tebygol o lwyddo drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd eisoes ar gael i ni a drwy weithio'n fwy effeithiol. Mae gan Sir y Fflint lawer i ymfalchïo ynddo; mae diweithdra'n dal yn isel, mae'r economi'n ffynnu ac mae llawer o enwau cyfarwydd wedi'u lleoli yma, gan gynnwys Airbus UK, Toyota, Iceland ac Unilever. Fodd bynnag, ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Gwyddom mai'r ardaloedd a fydd yn llwyddo yn y dyfodol yw'r ardaloedd mwyaf mentrus ac arloesol a'r ardaloedd sy'n llefydd deniadol i fyw neu i weithio ynddynt neu i ymweld â nhw. Dyna'n gweledigaeth ni ar gyfer Sir y Fflint.

Ni fydd y Cyngor Sir yn gallu cyflwyno'r rhaglen hon ar ei phen ei hun, felly rwy'n gwahodd pawb sydd am greu sir ffyniannus, deg a dymunol, i weithio gyda ni i ymgynghori at yr uchelgais hon. Rydym eisoes wedi sefydlu Partneriaeth Adfywio i roi'r Strategaeth ar waith, ac i fonitro cynnydd. Y Cyngor sy'n ei gwasanaethu ac mae'n cynnwys Cyngorwyr a Swyddogion, yn ogystal â chyrff lleol ac asiantaethau cenedlaethol. Caiff y Bartneiraeth ei hadolygu i sicrhau ei bod yn bodloni'r gofynion a roddir arni.

Rydym wedi ymrwymo i symud ymlaen yn gyflym ac mae'r amserlen ar gyfer paratoi'r strategaeth hon yn dangos hynny'n glir. Gwyddom y bydd yr economi'n gwella ar ôl y dirwasgiad presennol, ac rydym am i Sir y Fflint fod yn barod ar gyfer hynny.

Y Cyngorydd Matt Wright

Aelod Gweithredol dros Adfywio a Thwristiaeth

Dave Heggarty

Pennaeth Adfywio

Chwefror 2010

Cefndir

Llwyddwyd i adfywio ac amrywio economi Sir y Fflint ers cau'r diwydiannau dur, glo a thecstilau yn y 1980au a'r 1990au. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rydym yn wynebu'r sefyllfa economaidd anoddaf ers 1945. Mae economi'r DU wedi bod mewn cyfnod o ddirwasgiad ac mae'n bosibl y bydd yr effaith ar fusnesau, swyddi ac unigolion yn ddifrifol.

O ganlyniad i'r argyfwng yn y system bancio, bu gostyngiad sydyn yng nghyfradd gyfnewid sterling a gwelwyd y farchnad dai'n chwalu. Roedd rhan helaeth o economi'r byd yn crebachu, a'r sectorau ariannol ac adeiladu ddioddef fwyaf. Mae defnyddwyr yn dal yn gwario llai ar y stryd fawr.

Caiff y Strategaeth Adfywio hon ei pharatoi yng nghyd-destun y cefndir hwn.

Effeithiodd y dirwasgiad ar wahanol agweddau ar economi Sir y Fflint.

- Cynnydd bach mewn diweithdra. 2.8% oedd lefel diweithdra yn Sir y Fflint ym mis Rhagfyr, o'i gymharu â 5.6% yn y DU gyfan a 3.0% ydoedd yn nhrydydd chwarter 2010, sef gostyngiad bach o 3.3% yn chwarter cyntaf 2010. Roedd astudiaeth a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar y rhagolygon ar gyfer gogledd-orllewin Lloegr ym mis Tachwedd 2008, yn awgrymu y gallai diweithdra yn yr ardal honno godi i hyd at 6.7%.
- Llai o fuddsoddi gan y sector preifat, yn enwedig ym maes tai ac adwerthu.
- Llai o dai preifat yn cael eu hadeiladu. Dyma hefyd yw prif ffynhonnell tai fforddiadwy yn Sir y Fflint – drwy gyfrwng y Polisi Tai Fforddiadwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr tai preswyl ddarparu nifer gyfatebol o unedau fforddiadwy.
- Llai o fusnesau newydd a mewnfuddsoddi.
- Gostyngiad yn incwm y sector cyhoeddus oherwydd derbyniadau cyfalaf a llai o asedau i'w gwerthu, ochr yn ochr â gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus fel rhan o'r rhaglen i leihau'r ddyled a nodwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Gweledigaeth

“Mae ffyniant economaidd yn sylfaenol i’r broses o hybu lles yn Sir y Fflint. Rydym am weld Sir y Fflint yn ffynnu ac am sicrhau bod economi leol gref a sylfaen gadarn o ran gwybodaeth a sgiliau yn arwain at lwyddiant.

Rydym am i Sir y Fflint fod yn sir arloesol a rhagorol sy’n cyflawni’i photensial o ran datblygu economaidd a ffyniant economaidd yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rydym am i Sir y Fflint fod ag enw da am ddarparu gwasanaethau arloesol, o safon ac am weithio ar y cyd â phartneriaid.

Ein nod yw datblygu economi fodern a chynaliadwy, gyda’r gorau yn y byd, yn seiliedig ar fenter busnes a gweithlu tra brwdfrydig a hyfforddedig, sy’n cael ei chynnal gan y dechnoleg ddiweddaraf sy’n manteisio i’r eithaf ar asedau ffisegol a dynol yr ardal.

Byddwn yn cryfhau’r economi wledig drwy annog pobl i arallgyfeirio a drwy adfywio trefi’r Sir gan eu datblygu fel canolfannau lleol poblogaidd, pob un â’i chymeriad unigryw ei hun, sy’n ategu’i gilydd a’r hyn a gynigir yn y sector adwerthu ledled yr is-ranbarth.

Byddwn hefyd yn datblygu amrywiaeth o fentrau i helpu lleiafrif sylweddol o bobl leol sy’n wynebu tlodi, anfantais a chaledi. Rydym wedi ymrwymo i helpu’n cymunedau mwyaf difreintiedig, i roi’r un cyfle iddynt fwynhau llwyddiant economaidd Sir y Fflint yn y dyfodol.


Rydym yn sylweddoli bod nifer o ffactorau’n dylanwadu ar amgylchiadau economaidd pobl, yn awr ac yn y dyfodol, a gall y rhain gynnwys cyrhaeddiad addysgol, iechyd, amgylchiadau byw, cyfrifoldebau gofalu ac amgylchiadau teuluol. Byddwn yn gweithio gyda’n gilydd mewn partneriaeth i arwain y sector cyhoeddus wrth iddi ymateb i’r sefyllfa economaidd, gan hyrwyddo cyrff lleol (yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh), o ran sgiliau a hyfforddiant; cynnal y farchnad dai; y seilwaith; unigolion a theuluoedd.”

Datganiad Uchelgais Economaidd o Weledigaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint, Ionawr 2009

Beth fydd y Strategaeth yn ei wneud?

- Bydd yn bwrw ymlaen â gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) a'i throï'n Strategaeth Adfywio hirdymor, tan 2020.
- Bydd yn canolbwyntio ar adfywio economaidd yn yr ystyr ehangach, gan roi sylw i anghenion yn ymwneud â phobl, lleoedd a chyflogaeth. Bydd yn cysylltu â blaenoriaethau eraill y mae'r BGLI yn eu datblygu mewn perthynas â'r amgylchedd, iechyd, addysg a diogelwch cymunedol.
- Bydd yn ceisio ennyn diddordeb y grŵp ehangach o bartneriaid a rhanddeiliaid yn Sir y Fflint a'r tu hwnt a bydd yn heriol ac yn uchelgeisiol.
- Bydd angen i'r diwylliant newid a bydd yn manteisio ar gryfderau Sir y Fflint.
- Bydd yn helpu i leihau'r ffactorau sy'n arwain at dlodi ac anfantais.
- Bydd yn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o newidiadau demograffig.
- Bydd yn cynnig fframwaith i ddatblygu polisiau a buddsoddiadau.
- Bydd yn hyrwyddo datblygu ac adfywio economaidd cynaliadwy.
- Bydd yn cysylltu anghenion â chyfleoedd.
- Bydd yn rhoi'r sylw priodol i faterion yn ymwneud ag adfywio cefn gwlad ac adfywio trefol.
- Bydd yn gosod allan camau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith, sy'n gynaliadwy ac a fydd yn arwain at fanteision amlwg.
- Bydd yn cadarnhau'r hyn a waned eisoes, gan dynnu sylw at y problemau a'r heriau sy'n ein hwynebu.
- Bydd yn nodi'r adnoddau y maed eu hangen i sicrhau'r canlyniadau priodol.

Bydd y strategaeth yn cyd-fynd â hierarchaeth o strategaethau a pholisiau o'r lefel Ewropeaidd i lefel y llywodraeth ddatganoledig, o'r lefel ranbarthol ac is-ranbarthol i lefel Cyngor Sir y Fflint. Mae'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth i gyd yn cydymffurfio â chefnidir ehangach y polisi hwn ac yn ei ategu. Mae'r polisiau a'r strategaethau perthnasol wedi'u rhestru yn Atodiad 1.



Ffigur 1 | Y darlun strategol

Egwyddorion allweddol

Caiff y Strategaeth ei datblygu a'i gweithredu'n ôl yr egwyddorion a ganlyn:

- gweithio i wella perfformiad economaidd ledled y Sir;
- gweithio i wella gweithgarwch economaidd ac i hybu mentrau yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig;
- creu lleoedd cynaliadwy lle mae pobl yn dymuno byw a gweithio a lle mae busnesau'n dymuno buddsoddi;
- datblygu ymdeimlad cryfach o bwrpas cyffredin mewn perthynas ag adfywio ymhlith gwahanol asiantaethau;
- cydnabod nad yw pob ardal wedi datblygu i'r un graddau ac nad yw'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn un rhan o Sir y Fflint o reidrwydd yn gweithio mewn rhan arall. Caiff y camau a gymerir eu targedu a'u cydgyssylltu'n well a'u seilio ar flaenoriaethau strategol;
- cydnabod bod pawb, waeth beth yw cyflwr eu hiechyd, eu gallu corfforol, eu cefndir a'u gallu i ddysgu yn cael cymorth i gyflawni'u potensial personol ac i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir wrth roi'r strategaeth hon ar waith;
- cydnabod bod Sir y Fflint yn rhan o is-ranbarth economaidd gydberthnasol ehangach ardal Mersi a Dyfrdwy. Gweithio gyda'n partneriaid yng Nghynghair Mersi a Dyfrdwy i gynnal ein cryfderau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol;
- cynnwys pobl a busnesu lleol o'r dechrau un, gan ddefnyddio gwybodaeth leol am yr hyn sy'n gweithio orau;
- creu'r amodau iawn i alluogi busnesau i dyfu ac i helpu pobl lleol i gael gwaith.

Yn Atodiad 3, mae dadansoddiad ystadegol byr o anghenion Sir y Fflint. Defnyddiwyd y data hwn, a gwybodaeth o ffynonellau eraill (sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2), i greu tabl SLOT isod, a hefyd Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Strategaeth.

Dadansoddi Cryfderau, Cyfyngiadau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SLOT)

Cryfderau

- Lleoliad da i wasanaethu marchnadoedd y DU, gyda mynediad ardderchog i'r rhwydwaith priffyrdd a rheilffyrdd cenedlaethol, er ein bod yn fwy ymylol o edrych ar Ewrop gyfan.
- Rhan o is-ranbarth ddynamig – gorllewin Swydd Gaer a gogledd-ddwyrain Cymru.
- Ardal sy'n llwyddo'n economaidd lle mae nifer y di-waith yn isel, Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen yn uchel a lle mae llawer o weithgarwch economaidd.
- Sylfaen gref o gyflogwyr yn y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel.

Cyfyngiadau

- Dibynnu'n drwm ar deithio mewn ceir.
- Nid yw pob rhan o'r boblogaeth yn elwa o ffyniant y Sir.
- Prisiau tai'n dal yn uchel o'i gymharu ag incwm.
- Cyflogwyr yn ei chael yn anodd cael hyd i weithwyr sydd â'r sgiliau angenrheidiol.
- Delwedd hen ffasiwn fel ardal sy'n dibynnu'n llwyr ar ddiwydiannau trwm yn unig.
- Canol trefi'n dirywio, i wahanol raddau.

Cyfleoedd

- Mwy o weithio ar y cyd â phartneriaid llwyddiannus eraill ar hyd a lled yr is-ranbarth.
- Cynllun posibl i greu Coridor Technoleg ar hyd yr A55.
- Y posibilrwydd o godi safleoedd cyflogaeth newydd yn y Porth Gogleddol a Warren Hall.
- Tirweddau Aber Afon Dyfrdwy ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd sydd o bwys cenedlaethol ac ardaloedd gwledig o safon.
- Chwe miliwn o bobl yn byw o fewn amser gyrru o 90 munud.
- Sylfaen gweithgynhyrchu sydd mewn lle da i fanteisio ar unrhyw gynnydd economaidd a chyfraddau cyfnewid ffafriol.
- Cynllun i ddatblygu'r lein rhwng Wrecsam a Bidston i greu rhagor o gyfleoedd o ran cludiant cynaliadwy.

Bygythiadau

- Bydd y crebachu economaidd yn effeithio ar fusnesau, swyddi, datblygiadau tai a buddsoddiadau.
- Ardaloedd helaeth sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd, yn enwedig tir cyflogaeth ar hyd Aber Afon Dyfrdwy.
- Dibynnu'n sylweddol ar y sector gweithgynhyrchu, sy'n dirywio'n genedlaethol.
- Cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n teithio mewn car gan fod tai'n rhach yn Sir y Fflint yn is nag yn y canolfannau gwaith yng gorllewin Swydd Gaer a Chaer.
- Gostyngiad mewn gwariant ar y stryd fawr yn arwain at ddirywiad canol trefi.

Targedau

Targed	Faint?	Erbyn pryd?
Cynnydd yn nifer y busnesau newydd sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW	Cynnydd o 40% ers 2009	2013
Cynnydd yn nifer y swyddi mewn busnesau bach a chanolig (BBaCh)	Cynnydd o 15% ers 2009	2013
Cynnydd yn nifer y rhai mewn grwpiau dan anfantais sydd mewn gwaith	Cynnydd o 5% ers 2009	2013
Busnesau sy'n cael cymorth i ddechrau neu i dyfu	1600	2011
Gweithwyr sy'n cael hyfforddiant	920	2011
Pobl sy'n elwa o wasanaethau gwledig newydd i hybu cynaliadwyedd cymunedol	300	2011
Cynlluniau gweithredu canol trefi a gynhyrchir	7	2010
Unigolion sy'n cael cymorth i gael hyd i swyddi, addysg neu waith gwirfoddol	825	2011
Digwyddiadau sy'n cael cymorth i ddenu ymwelwyr	55	2011
Pobl sy'n cael hyfforddiant	1335	2011
Prosiectau i ddatblygu treftadaeth a diwylliant Sir y Fflint	36	2011

Tabl 5 | Dadansoddi Cryfderau, Cyfyngiadau, Cyfleoedd, Bygythiadau (CCCB)

Amcanion Strategol

Yn y Strategaeth Adfywio, mae cyfres integredig o gamau i'w cymryd i gyflawni'r tri Amcan Strategol

Amcan Strategol 1 | Sir y Fflint Gystadleuol

Datblygu economi fodern a chynaliadwy, gyda'r gorau yn y byd, yn seiliedig ar fenter busnes a gweithlu tra brwdfrydig a hyfforddedig, sy'n cael ei chynnal gan y dechnoleg ddiweddaraf sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau ffisegol a dynol yr ardal.

Dyma'r themâu allweddol:

Thema 1.1 | Cynorthwyo busnesau i fod yn gystadleuol
Thema 1.2 | Defnyddio tir cyflogaeth y Sir yn y ffordd orau bosibl

Amcanion Strategol 2 | Cymunedau Cynaliadwy

Cryfhau'r economi wledig drwy annog pobl i arallgyfeirio a drwy adfywio trefi'r Sir gan eu datblygu fel canolfannau lleol poblogaidd, pob un â'i chymeriad unigryw ei hun, sy'n ategu'i gilydd a'r hyn a gynigir yn y sector adwerthu ledled y Sir a'r siroedd cyfagos.

Dyma'r themâu allweddol:

Thema 2.1 | Datblygu canol trefi llwyddiannus
Thema 2.2 | Adfywio'r stoc tai
Thema 2.3 | Cynnal ardaloedd gwledig hyfwy ac atyniadol
Thema 2.4 | Datblygu posibiliadau twristiaeth yn y Sir

Amcan Strategol 3 | Cyflogaeth a Sgiliau

Datblygu amrywiaeth o fentrau i helpu pobl leol sy'n wynebu tlodi, anfantais a chaledi. Rydym wedi ymrwymo i helpu'n cymunedau mwyaf difreintiedig, i roi'r un cyfle â phawb arall iddynt fwynhau llwyddiant economaidd Sir y Fflint yn y dyfodol.

Dyma'r themâu allweddol:

Thema 3.1 | Cynyddu cyflogaeth a sgiliau
Thema 3.2 | Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Amcan Strategol 1 | Sir y Fflint gystadleuol sydd â busnesau cryf a llwyddiannus

Thema 1.1 | Helpu busnesau i fedru cystadlu

Mae Sir y Fflint mewn lleoliad strategol ar lwybr Ewropeaidd allweddol o Ddilyn i Hamburg (Rhwydwaith Traws Ewropeaidd 22). Mae llwyddiant y safleoedd cyflogaeth sydd yn nwyrain y Sir yn bennaf, yn dibynnu'n helaeth ar rwydwaith traffyrdd y DU ac ar farchnadoedd gogledd-orllewin Lloegr. O fewn 30 munud o waith gyrru o Sir y Fflint, mae poblogaeth o bron 1.6 miliwn, i gyfeiriad y dwyrain yn bennaf.

Ystyrir mai Sir y Fflint yw sbardun economaidd gogledd Cymru. Mae wedi denu amrywiaeth o gyflogwyr mawr, llwyddiannus ac mae ei sylfaen gweithgynhyrchu cadarn wedi parhau er y gwelwyd dirywiad sylweddol mewn ardaloedd eraill. Mae'r economi'n debycach i economi gogledd-orllewin Lloegr nag i economi gogledd Cymru.

Mae'r Sir yn ddibynol iawn ar weithgynhyrchu ac mae tua 34% o'r holl swyddi yn y sector hon, y ffigur cyfatebol ar gyfer y DU yw tua 14%. Yn y gorffennol agos, roedd hyn yn cael ei ystyried yn wendid, o gofio'r twf cyflym yn y sector gwasanaethau a'r sector ariannol. Fodd bynnag, gweithgynhyrchu yw cryfder Sir y Fflint, yn enwedig y sector uwch weithgynhyrchu sy'n cael sylw cynyddol gan wneuthurwyr polisi oherwydd y posibilrwydd y gall gynhyrchu cyfoeth sylweddol.

Mae'r sector uwch weithgynhyrchu yn Sir y Fflint yn cynnwys awyrofod, deunydd fferyllol, mân gemegolion, papur a chydannau cerbydau modur.

Mae economi fyd-eang yn symud o'r oes ddiwydiannol i'r oes wybodaeth. Mae'r gallu i gystadlu'n dibynnu fwyfwy ar gymhwysu gwybodaeth ac uwch sgiliau'n hytrach nag ar brisiau'n unig. Y 'sectorau busnes gwybodaeth ddwys' yw sylfaen yr economi leol ac, os ydynt am barhau, bydd angen iddynt fod yn arloesol, yn greadigol ac yn barod i addasu'n gyflym.

Bydd angen i'r Sir gynorthwyo'r sector hon drwy ddatblygu uwch sgiliau a gallu, arloesed, ymchwil a datblygu, y gallu i drosglwyddo hyfforddiant a thechnoleg, os yw'r swyddi yn y sectorau busnes gwybodaeth ddwys am barhau.

Bydd y strategaeth yn:

- datblygu cysylltiadau agosach â'r sectorau addysg bellach/uwch;
- rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o ddatblygu Canolfan Uwch Ddeunyddiau yn Sir y Fflint – a fydd yn trosglwyddo ymchwil a datblygu a thechnoleg o addysg uwch i gyflogwyr lleol;
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu Campws Lloneurgain gel canolfan addysg bellach / uwch, gydag arbenigedd mewn biowyddoniaeth;



- cefnogi'r gwaith o ddatblygu Coridor Technoleg rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, yn seiliedig ar y cyfleusterau optoelectroneg yn Optic, Llanelwy, y Ganolfan Biowyddoniaeth arfaethedig yn Llaneurgain, y Ganolfan Uwch Ddeunyddiau arfaethedig yng Nglannau Dyfrdwy, Canolfan y Diwydiannu Creadigol yn Wrecsam, Canolfan Ymchwil Uwch Daresbury ac ehangu Sw Caer;
- sicrhau bod gan Sir y Fflint y seilwaith priodol, gan gynnwys y seilwaith trafndiaeth, i gynnal economi gystadleuol fodern.

Bydd datblygu'r Sector Busnes Gwybodaeth Ddwys yn dyngedfennol i ffyniant Sir y Fflint yn y dyfodol.

Mae Sir y Fflint wedi llwyddo yn y gorffennol drwy ddarparu pecyn atyniadol iawn, yn enwedig i ddiwydiannau gweithgynhyrchu annibynnol. Prin yw'r mewnfuddsoddiad yn y sector hon bellach gan fod ardaloedd yn nwyrain Ewrop a'r Dwyrain Pell yn fwy atyniadol. Prin hefyd yw swyddogaethau'r prif swyddfeydd yn y Sir, sy'n golygu bod penderfyniadau am fuddsoddi'n digwydd oddi allan i'r Sir yn aml. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod prinder safleoedd addas ar gyfer swyddogaethau prif swyddfa. Mae'n allweddol cael hyd i dir ac adeiladau a fydd yn denu cwmnïau i fuddsoddi a chreu swyddi.

Er bod y Sir wedi llwyddo i ddenu cyflogwyr mawr, nid yw wedi llwyddo i ddatblygu busnesau bach lleol. Mae 2685 o fusnesau yn Sir y Fflint sy'n cyflogi rhwng 2 a 49 o bobl, ac mae'n bosibl i'r rhain dyfu yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod anghenion y grŵp hwn yn cael eu diwallu o ran sgiliau, cymorth busnes, adeiladau a chaffael.

Nid oes gan Sir y Fflint fawr o draddodiad o ran sefydlu busnesau newydd, ac mae hyn i'w briodoli i'r duedd i ddenu cyflogwyr mawr ac, yn rhannol, i natur y swyddi sydd ar gael. Mae angen i Sir y Fflint gynhyrchu mwy o fusnesau newydd. Tueddir i weld mwy o fusnesau newydd yn dechrau yn yr ardaloedd mwyaf ffyniannus, ond dim ond tua thri chwarter cyfartaledd y DU yw'r gyfradd yn Sir y Fflint (sefydlwyd 29 o fusnesau sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW am bob 10,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â 44 yn y DU gyfan). Mewn cymhariaeth, y ffigur cyfatebol ar gyfer Macclesfield, ardal sydd wedi trawsnewid o fod yn ddibynnol ar ddiwydiannau traddodiadol, yw 66.

Mae angen newid agweddau'n sylweddol tuag at hunangyflogaeth, gan hyrwyddo a chefnogi'r sector hon. Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu strategaeth newydd ar gyfer cynorthwyo busnesau bach mewn partneriaeth â choleg Glannau Dyfrdwy. I wneud hyn, bydd angen newid diwylliannol hirdymor, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion a cholegau i wneud hunangyflogaeth yn fwy atyniadol.

Wrth gynorthwyo busnesau bach sy'n datblygu, a'r rheini sy'n bodi eisoes, mae hefyd angen ystyried anghenion y sector busnes cymdeithasol, sydd â rôl werthfawr yn y broses o ddiwallu anghenion lleol drwy gynnig model busnes gwahanol a chynaliadwy.



Dyma, felly, yw nodau'r Strategaeth:

1. datblygu strategaeth newydd i gynorthwyo busnesau bach ac i ddarparu pecyn o fesurau i hybu'r sector busnesau bach a chanolig yn Sir y Fflint, gan gynnwys mentrau cymdeithasol;
2. gweithio gyda phartneriaid i gynnig siop un alwad sy'n ymateb i anghenion busnesau Sir y Fflint;
3. helpu busnesau i wella'u perfformiad amgylcheddol ac i gynyddu nifer y swyddi yn y diwydiant amgylcheddol yn Sir y Fflint.
4. helpu i ddatblygu rhwydweithiau cyflenwi lleol cryf ac annog pobl i brynu'n lleol;
5. meithrin cysylltiadau ychwanegol â'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach;
6. hybu'r broses o ddatblygu Canolfan Uwch Ddeunyddiau;
7. hybu'r broses o ddatblygu Coridor Technoleg rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

Thema 1.2 | Defnyddio tir cyflogaeth y Sir yn y ffordd orau bosibl

Mae safleoedd cyflogaeth yn Sir y Fflint yn amrywio o ran ansawdd a swyddogaeth. Mae angen buddsoddi mewn safleoedd cyflogaeth i'w galluogi i addasu i anghenion cyfnewidiol busnesau newydd.

Yn 2008, comisynodd Cyngor Sir y Fflint gwmni o ymgynghorwyr, sef DPDS Ltd., i adolygu'r cyflenwad presennol o dir cyflogaeth yn Sir y Fflint, i weld a oedd yn cyfateb i anghenion presennol y sir ac i weld faint ohono oedd ar gael.

Roedd astudiaeth DPDS yn cydnabod bod gan Sir y Fflint gyflenwad mawr o dir cyflogaeth, er mai dim ond hanner y tir hwn oedd yn addas ar gyfer datblygu'r safleoedd safon uchel sydd eu hangen ar y sir os yw am ddenu diwydiannau gwerth uchel. Astudiwyd hefyd y cyfyngiadau ar ddatblygu'r safleoedd ac, er nad oedd cyfyngiadau ar y rhan helaeth ohono, nodwyd nad oedd y safleoedd, o reidrwydd, yn barod ar gyfer datblygu busnes.

Mae'n bosibl nad yw tir gwael yn addas ar gyfer cyflogaeth fodern. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen buddsoddi'n sylweddol mewn cysylltiadau trafniadaeth a seilwaith cyn y gellir ystyried ei fod yn barod ar gyfer datblygu busnes. Mae'n bosibl na fydd hyn yn gost-effeithiol i rai o'r safleoedd salaf.

Mae hefyd angen datblygu safleoedd cyflogaeth presennol Sir y Fflint i fanteisio i'r eithaf ar eu gwerth i economi'r sir, i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd ac i gynyddu eu gwerth i gymunedau lleol.

Dyma amcanion y Cyngor a'i bartneriaid:

1. hwyluso'r gwaith o ddatblygu safleoedd cyflogaeth strategol o safon yn y Porth Gogleddol a Warren Hall. Y safleoedd hyn fydd yn creu'r rhan helaethaf o'r cyfleoedd gwaith yn y Sir dros y deng mlynedd nesaf;
2. ailgynllunio'r safleoedd i'w gwneud mor atyniadol â phosibl fel lleoliadau busnes;
3. hybu'r broses o ddatblygu dulliau cynaliadwy eraill o ddefnyddio safleoedd tir llwyd ac eiddo gwag;
4. annog mwy o gydweithredu, rhwydweithio a chynorthwyo busnesau ar safleoedd cyflogaeth, gan ddechrau ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy;
5. annog busnesau i wella'r amgylchedd ac i fabwysiadu arfer amgylcheddol da (fel y gwelir ym Mharc Castell y Fflint) gan gynnwys datblygu cynlluniau teithio cynaliadwy; a
6. rheoli asedau eiddo Cyngor Sir y Fflint i hybu adfywiad ehangach.



Amcan Strategol 2 | cymunedau cynaliadwy

Dyma sut y mae Llywodraeth y DU yn diffinio cymunedau cynaliadwy:

- “gweithredol, cynhwysol a diogel;
- trefnus;
- yn amgylchedd sensitif;
- wedi’u cynllunio a’u hadeiladu’n dda;
- cysylltiadau da;
- yn ffynnu;
- gwasanaethau da;
- teg i bawb.”

Byddwn yn cyfrannu at y broses o ddatblygu cymunedau cynaliadwy yn Sir y Fflint, ochr yn ochr â’r strategaethau eraill a gaiff eu paratoi o dan y Strategaeth Gymunedol gyffredinol. Yn benodol, byddwn yn cymhwyso’r egwyddorion a amlinellir uchod i’r gwaith o ddatblygu a rheoli cymunedau Sir y Fflint.

Mae ansawdd lleoedd, p’un a ydynt yn ardaloedd gwledig, yn ganol trefi, yn safleoedd cyflogaeth neu’n dir glas, yn hanfodol i ffyniant y Sir. Nid yw safleoedd gwael yn denu buddsoddiadau nac yn hybu busnesau. Mae ofn trosedd yn cynyddu ymysg y bobl leol, ac mae eu hiechyd corfforol a meddyliol yn dirywio ac mae hyn oll yn creu cylch o ddirywiad cynyddol. Byddwn yn hyrwyddo cyfiawnder amgylcheddol fel egwyddor gan sicrhau bod gan bawb amgylchedd da.



Thema 2.1 | Datblygu canol trefi llwyddiannus

Canol trefi yw 'fffenestr siop' y Sir, ac maent yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau a gwaith ac, oherwydd hynny, maent yn dyngedfennol i ddelwedd Sir y Fflint a hefyd yn ganolbwynt i fywyd cymdeithasol ac economaidd. Nid yw golwg y canol trefi na'r hyn sy'n mynd ymlaen yno'n adlewyrchu ffyniant cyffredinol y Sir ar hyn o bryd ac maent i gyd i'w gweld yn dirywio.

Yn 2007 comisiynodd Cyngor Sir y Fflint arolwg gan gwmni BMG Research. Gofynnwyd i bobl nodi'r trefi roeddynt yn eu defnyddio amlaf a nodi pa mor fodlon oeddynt â gwahanol agweddau fel diogelwch, yr amgylchedd, tagfeydd, llefydd i barcio ac amrywiaeth o wasanaethau. Yn gyffredinol, wrth ateb llawer o'r cwestiynau, nododd yr ymatebwyr eu bod yn llai bodlon ar drefi Sir y Fflint nag â threfi'r tu allan i'r Sir.

Yn ôl yr Astudiaeth o Gyflwr Canol Trefi a gomisiynodd Cyngor Sir y Fflint yn 2008 ac a baratowyd gan Roger Tym and Partners, cyfran fechan iawn o'r arian a oedd ar gael i ddefnyddwyr oedd yn cael ei wario yn y trefi ac roedd y rhan fwyaf o'u gwariant yn digwydd mewn lleoliadau eraill. Ystyrir nad oes angen i batrwm ymddygiad defnyddwyr newid yn sylweddol i sicrhau bod mwy'n cael ei wario yng nghanol trefi Sir y Fflint. Yn benodol, darganfu Roger Tym and Partners y gallai trefi lleol fanteisio'n sylweddol ar fylchau yn y sector hamdden a lletygarwch. Nodwyd twristiaeth hefyd fel maes nad oedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Bydd y Strategaeth Adfywio yn ceisio sicrhau bod canol trefi Sir y Fflint yn lleoedd bywiog ac atyniadol lle bydd busnesau llwyddiannus yn gwasanaethu anghenion y gymuned leol drwy nifer o fesurau arloesol.

Yn 2009/10, dechreuodd y Cyngor Sir weithio gyda phartneriaid lleol i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer pob un o'r saith prif dref – Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton. Er na chaiff cynlluniau gweithredu ffurfiol eu datblygu, yn y tymor byr, ar gyfer trefi eraill Sir y Fflint, mae angen asesu eu hanghenion hwythau a chymryd camau i sicrhau eu bod yn parhau'n hyfyw ac yn fywiog.

Yn sgil y Cynlluniau Gweithredu, cafodd y trefi dan sylw gymorth ariannol gan:

- Gyngor Sir y Fflint
- Rhaglen Trefi Taclus Llywodraeth Cymru
- Cronfa Ansawdd yr Amgylchedd Lleol Llywodraeth Cymru
- Cynghorau Tref

Ymhlith y cynlluniau cyntaf i gael arian oedd cynlluniau i wella'r amgylchedd, glanhau ardaloedd penodol, cynlluniau diogelwch a chymorth i adwerthwyr ('y Doctor Siopau')

Cam nesaf y rhaglen fydd datblygu cynlluniau gweithredu penodol, gan osod gweledigaeth glir a chynllun ar gyfer pob canol tref, gan ddefnyddio arian o gymaint o ffynonellau ag y bo modd.



Un flaenoriaeth yw dod â rhanddeiliaid o bob tref ynghyd i:

- nodi rôl i bob tref yn y dyfodol;
- nodi cryfderau a chyfleoedd yn y dref a chreu gweledigaeth ar ei chyfer yn y dyfodol;
- nodi'r hyn a allai fod yn rhwystr i'r weledigaeth honno;
- penderfynu ar y camau i'w cymryd i oresgyn y rhwystrau hyn;
- gosod trefniadau i sicrhau bod y dref yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon ac y bydd yn gallu ymateb i anghenion ei defnyddwyr yn y dyfodol.

Drwy'r broses hon, caiff cynlluniau clir ac ymarferol eu paratoi a fydd yn egluro sut y dylid mynd ati i adfywio canol trefi Sir y Fflint. Bydd hyn yn rhoi darlun clir i randdeiliaid, yn rhoi anogaeth a hyder i fuddsoddwyr posibl, yn ddull defnyddiol o fonitro cynnydd a bwydo i'r broses gynllunio yn y dyfodol. Caiff cynlluniau gweithredu'r trefi eu defnyddio i greu polisiau i lywio strategaethau a chynlluniau yn y dyfodol.

Caiff y cynlluniau gweithredu eu datblygu fesul tref a'u hadolygu'n ôl grym y farchnad. Mae amcanion y cynlluniau gweithredu'n cynnwys:

1. hwyluso datblygiadau masnachol newydd yng nghanol y trefi drwy gydosod tir a thrwy ddefnyddio safleoedd diffaith ac eiddo gwag ;
2. gwella'r amgylchedd adeiledig, tir y cyhoedd a chyfleusterau i ddefnyddwyr;
3. rheoli canol trefi i sicrhau eu bod yn llefydd diogel a chroesawgar i bobl sy'n mynd yno fis nos ac wedi iddi dywyllu;
4. datblygu strategaeth i alluogi marchnadoedd i fod yn rhan fwy sylweddol o economi canol trefi;
5. darparu dulliau o deithio sy'n galluogi pobl i osgoi defnyddio car;
6. gwella mynediad i bobl o bob gallu a helpu busnesau i addasu i ofynion cwsmeriaid;
7. hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu tai uwchben siopau ac i adeiladu tai yng nghanol y trefi;
8. gwella'r modd y caiff canol trefi'u rheoli.

Thema 2.2 | Adfywio stoc tai Sir y Fflint

Mae tai yn elfen bwysig yn y broses o ddatblygu cymunedau cynaliadwy. Yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Cymru'n Un: rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru' nodir bod 'prinder tai fforddiadwy o ansawdd dda yn effeithio ar iechyd a lles pobl, ac yn dylanwadu ar eu cyfleoedd bywyd hirdymor ... Mae stoc o gartrefi fforddiadwy o ansawdd dda yn sail i gymunedau lleol sy'n ffynnu ym mhob cornel o Gymru.' Yr hyn sy'n nodweddiadol o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Sir y Fflint yw bod nifer helaeth y cartrefi'n dai cymdeithasol ac, mewn nifer o achosion, mae'r amgylchedd ffisegol a'r stoc tai'n wael. Mae ardaloedd eraill yn y Sir lle mae nifer fawr o dai hŷn mewn cyflwr gwael, sy'n eiddo preifat.

Mae amrywiaeth eang o bartneriaid sydd ynghlwm wrth y gwaith o reoli tai ac os ydym am weld safon y cymdogaethau hyn yn codi, mae angen mabwysiadu dulliau cydlynol o'u gwella a'u rheoli. Dyma rai enghreifftiau o bartneriaid a mentrau y bydd angen eu cydlynu:

- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf;
- Rhaglenni Llywodraeth Cymru - Trefi Taclus ac Ansawdd yr Amgylchedd Lleol;
- Gwaith gan y sector gwirfoddol i wella'r amgylchedd drwy ddefnyddio grwpiau lleol yn ogystal â chyrrff cenedlaethol mwy e.e. Groundwork a BTCV Cymru;
- Goruchwyllo archwiliadau amgylcheddol a phaneli plismona cymdogaethau;
- Gwasanaethau i hybu cyfranogiad tenantiaid ac i reoli tai'r Cyngor a thai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;
- Darparwyr gwasanaethau'r Cyngor.

Bydd tai yn rhan dyngedfennol o'r gwaith o gyflawni amcanion y Strategaeth Adfywio. Mae llwyddiant economaidd Sir y Fflint yn dibynnu ar sicrhau cyflenwad digonol o dai o safon ac mae'n debyg mai buddsoddi mewn gwella tai a chodi tai newydd fyddai'r cyfraniad pwysicaf i'r broses o wella amgylchedd ffisegol Sir y Fflint a bydd hyn hefyd yn elfen dyngedfennol mewn llawer o'r cynlluniau adfywio. Bydd angen i'r Strategaeth Adfywio ddefnyddio ac ystyried yr Aseiad o Farchnad Dai Gogledd-ddwyrain Cymru, Gwybodaeth Tai Hometrack, y Datganiad Tai Fforddiadwy, y Cynllun Tai Lleol, y Cynllun Datblygu Unedol/ y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill a Strategaeth Hamdden Sir y Fflint i sicrhau ei bod yn gydnaws â'r polisiau hyn ac yn benodol i:

1. sicrhau'r gwerth uchaf i fuddsoddiadau tai yn y sector cyhoeddus a phreifat gan gynnig cyfleoedd i adfywio ardaloedd yn ehangach yn ogystal â chyfleoedd i greu rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant newydd;
2. sicrhau bod datblygiadau tai'n diwallu holl anghenion amrywiol a chyfnewidiol yr ardal, ac yn ychwanegu at nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael, gan gynnwys cysylltiadau â gwaith Swyddog Galluogi Tai Gwledig Wrecsam a Sir y Fflint;
3. datblygu ymhellach y strategaeth a'r mentrau i adfer adeiladau gwag a'u troi'n dai preswyl er mwyn diwallu anghenion tai, yn enwedig mewn canol trefi, gan roi hwb iddynt hwythau;
4. rheoli ardaloedd tai cymdeithasol i fynd i'r afael ag ardaloedd o dan falltod a chreu amgylchedd o safon i'r trigolion
5. mynd i'r afael ag ardaloedd lle mae llawer o dai preifat mewn cyflwr gwael mewn ardaloedd trefol a gwledig.



Thema 2.3 | Cynnal ardaloedd gwledig hyfyw ac atyniadaol

Yn 2005, nododd Llywodreth Cymru bod 80% o Sir y Fflint yn ardal wledig a chanddi boblogaeth o 67,370 a 34,514 hectar o dir. Dwy dref farchnad, sef Treffynnon a'r Wyddgrug sy'n gwasanaethu'r ardaloedd gwledig o ran siopau, cyfleusterau iechyd, hamdden ac addysg uwchradd. Yn yr ardaloedd hyn mae pentrefi tlws a ffermydd traddodiadol sy'n creu tirwedd o safon a cheir hefyd nodweddion naturiol fel Bryniau Clwyd, Aber Afon Dyfrdwy a Mynydd Helygain.

Ers 2000, lanswyd nifer o gynlluniau i adfywio cymunedau gwledig Sir y Fflint. Roedd rhai ohonynt yn canolbwyntio ar adfywio cymunedau gwledig, e.e. Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, Erthygl 33 a LEADER, ac roedd eraill, fel y Fenter Trefi Bach a Phentrefi yn canolbwyntio ar faes busnes a buddsoddiadau.

Mae'r cynlluniau hyn wedi rhoi hwb i'r broses o adfywio cymunedau gwledig Sir y Fflint ac wedi cyfrannu'n helaeth at y broses o wella bywyd yn ardaloedd gwledig Sir y Fflint. Y bwriad yw adeiladu ar eu llwyddiant drwy fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan raglenni adfywio newydd, fel Cynllun Datblygu Gwledig Cymru.

Er bod gan y rhan fwyaf o Sir y Fflint wledig dirwedd o safon, poblogaeth gefnog a chryn botensial o ran twristiaeth, mae hefyd rhai ardaloedd o amddifadedd, ardaloedd lle mae'n anodd manteisio ar wasanaethau a phrinder tai fforddiadwy.

Gall cyflwr cyffredinol iach y sir gelu'r ffaith bod problemau cymdeithasol ac economaidd yn rhai o gymunedau Sir y Fflint. Mae dwy o bum ardal Cymunedau yn Gyntaf (Gogledd Sir y Fflint Wledig a Bryn Gwalia'r Wyddgrug) yn ardaloedd gwledig Sir y Fflint. Yn yr ardaloedd gwledig, mae amddifadedd yn dueddol o grynhoi mewn pocedi ynysig ac oherwydd y canfyddiad bod bywyd yng nghefn gwlad yn fywyd braf, delfrydol, gall yr amddifadedd fod ynghudd.

Mae'r Strategaeth Datblygu Gwledig (2007–13) yn cynnig fframwaith strategol i hwyluso'r broses o ddatblygu mentrau a phrosiectau fel a ganlyn

- hybu cynlluniau i arallgyfeirio'r economi leol;
- hybu cynlluniau a fydd yn codi safon byw ac yn gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig;
- galluogi pobl i ddefnyddio dulliau cyfannol ac arloesol o adfywio ardaloedd gwledig
- ymgysylltu â chymunedau gwledig a'u galluogi i gyfrannu at y gwaith o adfywio'u cymunedau.



Mae'r Strategaeth Datblygu Gwledig yn amlygu pedair thema strategol;

- datblygu'r diwydiant twristiaeth;
- datblygu mwy o Ymdeimlad o Le;
- datblygu gwasanaethau gwledig, menter gymdeithasol a Thechnoleg Gwybodaeth;
- lleihau'r ynni a ddefnyddir a'r gwastraff a gynhyrchir, hyrwyddo dulliau cynaliadwy o ddefnyddio tir a choedwigoedd a chefnogi'r sector bwyd-amaeth.

Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 yn sianelu arian gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru i roi nifer o brosiectau ar waith o dan y themâu drwy Bartneriaeth Gwledig Sir y Fflint.

Bydd y rhaglen hon, ymhlith eraill, yn allweddol i'r gwaith o sbarduno datblygu gwledig yn ystod oes y Strategaeth Adfywio. Ar lawr gwlad, bydd yn gyfle i unigolion, busnesau, sefydliadau a chymunedau gael arian a chymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a chryfhau cymunedau gwledig Sir y Fflint.

Dyma amcanion y Strategaeth Adfywio dros gyfnod ehangach:

1. annog mentergarwch, a chreu cyfleoedd i bobl ifanc yn arbennig;
2. gwella sgiliau'r gweithlu gwledig;
3. moderneiddio ac arallgyfeirio sylfaen yr economi wledig; annog busnesau i gydweithio i leihau costau ac i helpu i ddatblygu rhwydweithiau o gyflenwyr lleol ac i dreialu cynnyrch a marchnadoedd newydd;
4. ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau gwledig ac archwilio atebion arloesol i'r dirywiad mewn gwasanaethau gwledig, (er enghraifft Pub is the Hub);
5. cefnogi cynlluniau cymdeithasol sy'n ceisio datrys problemau gwasanaethau gwledig;
6. datblygu'r diwydiant twristiaeth wledig a'i gyfraniad i'r economi;
7. datblygu cysylltiadau rhwng canolfannau gwasanaeth a chefn gwlad;
8. cefnogi cynlluniau i ddatblygu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad, gan gynnwys aildefnyddio adeiladau gwag a segur
9. gwella cysylltiadau trafndiaeth â chymunedau gwledig, yn enwedig cludiant cynaliadwy.

Thema 2.4 | Twristiaeth

“Mae twristiaeth yn rhan bwysig o’r economi leol ac yn cyfrannu’n uniongyrchol at fywiogrwydd ariannol y sir. Mae’n creu gwaith ac mae cyfraniad y sector at les cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal yn bwysig iawn.”
Strategaeth Dwristiaeth Sir y Fflint 2008

Mae twristiaeth hefyd yn helpu i greu delwedd a chodi proffil ardal. Un o’r elfennau allweddol sydd ynghlwm wrth sicrhau buddsoddiad preifat yw delwedd ffafriol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod twristiaeth yn cyfrannu £160.6m bob blwyddyn i economi Sir y Fflint, a gynhyrchir gan 2.7 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae partneriaeth Gororau Gogledd Cymru, sy’n cynnwys awdurdodau lleol a busnesau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam wedi hyrwyddo’r ardal yn genedlaethol ers 1996, a llwyddwyd i sicrhau arian o ffynonellau allanol i gefnogi’r ymgyrch.

Mae gan Sir y Fflint nifer o gryfderau fel cyrchfan – gan gynnwys tirwedd o safon, treftadaeth a diwylliant cyfoethog (yn enwedig Clwyd Theatr Cymru yn yr Wyddgrug), trefi deniadol ac amrywiaeth o atyniadau a digwyddiadau. Mae cryn botensial i gynyddu gwerth y diwydiant yn Sir y Fflint, drwy fanteisio i’r eithaf ar rôl twristiaeth fel rhan o’r broses adfywio ehangach. Mae sylfaen busnes eang y sir hefyd yn cynhyrchu cryn dipyn o dwristiaeth busnes. Mae hyn yn amrywio o ymweliadau gan gynrychiolwyr gwerthiant a chwsmeriaid, i gontractwyr a chyflenwyr. O ganlyniad, mae galw mawr am westai a llety ag arlwyfaeth a llety hunanarlwyo.

“Bydd Strategaeth Dwristiaeth Sir y Fflint yn manteisio ar amgylchedd naturiol godidog Sir y Fflint, ynghyd â chyfoeth ei threftadaeth, ei diwylliant, ei hiaith a’i chynnyrch, i wahodd pobl i archwilio, deall a mwynhau’r sir. Caiff yr hyn sydd gan y sir i’w gynnig ei ategu gan: ymrwymiad i safon; gwybodaeth sy’n hawdd ei chael; ymdrech i sicrhau bod pob agwedd ar brofiad yr ymwelwyr yn cwrdd â’u disgwyliadau.” Gweledigaeth Strategaeth Dwristiaeth Sir y Fflint 2008

Dyma’r pum amcan strategol y mae’n eu nodi ar gyfer twristiaeth:

- adolygu a gwella brandio ym maes marchnata;
- gwella twristiaeth fel cynnyrch;
- codi safon y diwydiant a’r gyrchfan yn gyffredinol;
- ei gwneud yn haws cael gwybodaeth;
- meithrin dulliau o weithio mewn partneriaeth.

Drwy’r Rhaglen Datblygu Gwledig, mae buddsoddiad sylweddol yn y diwydiant twristiaeth ar y gweill, gan hybu twristiaeth gynaliadwy ym Mryniau Clwyd, treialu cynnyrch twristiaeth newydd, codi safon busnesau a’r gyrchfan yn gyffredinol, datblygu mentrau i greu ymdeimlad o le fel G?yl Fwyd yr Wyddgrug, Cadi Ha a Jiwbilil Bwcle.



Yng nghyd-destun y Strategaeth Adfywio, mae rôl ehangach i dwristiaeth. Gall twristiaeth:

- “fod yn ganolog i waith adfywio mewn ardaloedd trefol a gwledig
- ysgogi twf yn yr ardal gan godi’i phroffil a sefydlogi’r nifer sy’n mudo i ardaloedd eraill
- creu cyfleoedd gwaith newydd ac arallgyfeirio’r economi leol
- helpu i gynnal cyfleusterau lleol, gan gynnwys siopau, tafarndai, canolfannau hamdden a hygyrchedd, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus
- ysgogi cynlluniau i wella’r amgylchedd lleol
- gwella delwedd y sir a’r canfyddiad ohoni a chynyddu buddsoddiadau”

Dyma’r nodau allweddol arfaethedig:

1. gweithredu’r camau a nodwyd yn Strategaeth Dwristiaeth Sir y Fflint 2008-13;
2. integreiddio’r gwaith o ddatblygu twristiaeth yn y gwaith ehangach o ddatblygu canol trefi er mwyn cryfhau rôl y trefi fel cyrchfannau atyniadol sydd wedi’u rheoli’n dda;
3. integreiddio’r gwaith o ddatblygu twristiaeth yn y gwaith o reoli prif atyniadau’r sir o ran tirwedd, sef Bryniau Clwyd ac Aber Afon Dyfrdwy;
4. mae’r diwydiant twristiaeth wedi’i grynhoi yn y pentrefi ar arfordir Sir y Fflint yn y gogledd, yn enwedig Talacre a Gronant, a bydd angen defnyddio dulliau integredig o’u hadfywio a’u rheoli i gydbwysu’r pwysau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd;
5. manteisio i’r eithaf ar rôl twristiaeth fel gyrfa a sicrhau bod modd gweithio’n hyblyg yn y diwydiant er mwyn ehangu’r nifer sy’n cyfranogi;
6. gwella hygyrchedd, gan gynnwys trafndiaeth gynaliadwy;
7. gwella delwedd a phroffil Sir y Fflint drwy farchnata twristiaeth, digwyddiadau a drwy reoli’r gyrchfan yn gyffredinol.

Amcan Strategol 3 | Cyflogaeth a Sgiliau

Thema 3.1 | Cyflogaeth a Sgiliau

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae diwydiannu awyrofod, bwyd, papur, cemegolion a chydrannau ceir wedi disodli'r hen ddiwydiannu traddodiadol yn Sir y Fflint. Rhagwelwyd y byddai peirianeg, gweithgynhyrchu, gwasanaethau ariannol a gwasanaethau busnes yn tyfu yn Sir y Fflint, ond mae pryder yn awr, fodd bynnag, mai'r sectorau hyn fydd yn dioddef fwyaf yn ystod y cyni economaidd presennol.

Er y gallai'r cyni economaidd effeithio ar bob galwedigaeth, oherwydd yr angen parhaus i wella a'r galw am sgiliau gwell, mae'n fwy tebygol y bydd yn effeithio fwyaf ar y galwedigaethau hynny sy'n gofyn am lefelau sgiliau is.

Mae swyddi'n cael eu colli'n lleol ac mae hyn yn cael effaith fechan ond sylweddol yn y sir a'r ardal gyfagos. Mae Sir y Fflint yn ddibynnol iawn ar weithgynhyrchu, ac mae 33.9% o holl swyddi'r sir yn y sector hon.

Mae diweithdra'n fwy tebygol o effeithio ar weithwyr rhan amser a gweithwyr sgiliau isel na neb arall. Dros y tair blynedd diwethaf (2005 – 08), gwelwyd nifer y gweithwyr sgiliau isel yn y sector gweithgynhyrchu yn y sir yn gostwng 15% (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth). Bu cynnydd o 32% yn nifer y gweithwyr sgiliau uwch yn y sector dros yr un cyfnod.



Mae Tabl 7 yn dangos sut y mae Sir y Fflint yn cymharu â Chymru a'r UD o ran cyflogaeth a lefelau sgiliau.

Cyfran y bobl sydd:	Sir y Fflint	Cymru	UD
O oedran gweithio sydd mewn gwaith (2008)	61%	60.2%	62%
yn weithredol yn y farchnad lafur (Hydref 2008 – Medi 2009)	80.7%	75.4%	78.9%
yn hunangyflogedig (Hydref 2008 – Medi 2009)	7.4%	8.6%	9.1%
heb waith na hyfforddiant (Hydref 2008 – Medi 2009)	19%	24.6%	21.1%
wedi'u cofrestru'n ddi-waith (Rhagfyr 09)	3.7%	4.3%	4.1%
yn gweithio mewn swyddi sgiliau isel (Hydref 2008 - Medi 2009)	21.4%	20.4%	18.2%
ag NVQ1 neu gymhwyster cyfatebol(2008)	87.6%	78.6%	78.9%
ag NVQ4 neu gymhwyster cyfatebol (2008)	24%	26.5%	29%

Tabl 7 | Dangosyddion diweithdra allweddol

Ffynhonnell: NOMIS

Yn ogystal â hyn, mae gan 28% o bobl yn Sir y Fflint broblemau llythrennedd ac mae gan 27% broblemau rhifedd (Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol). Heb y sgiliau sylfaenol i ddarllen ac i ddeall gwybodaeth, mae'n llai tebygol fyth y bydd yr unigolion hyn gallu cael hyd i swydd a'i chadw.

Mae Strategaeth Drafft 14-19 Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant yn cyd-fynd ag anghenion cyflogaeth a sgiliau. Bydd ymrwymiad i ddysgu gydol oes yn helpu'r sir i addasu i'r newidiadau yn y sefyllfa economaidd a'r galw am swyddi a diwydiannau gwahanol .

Nod Cynllun Dysgu Gydol Oes a Strategaeth Arfaethedig Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint yw hybu'r agenda 14-19 a dysgu gydol oes drwy sicrhau bod y rhwydwaith ysgolion yn cyd-fynd â gofynion presennol yr ardal, y newidiadau demograffig a busnesau.

Un her fawr sy'n wynebu Sir y Fflint yw diffyg gwaith.

Mae nifer y di-waith yn gymharol isel ond mae hyd at 12000 o bobl wedi colli eu swyddi, wedi cymryd ymddeoliad cynnar, neu'r ddi-waith ac yn byw ar fudd-daliadau. Er y byddai llawer o'r bobl hyn yn hoffi gweithio, mae gwahanol ffactorau, gan gynnwys gwahaniaethu, diffyg gofal plant a gwasanaeth trafndiaeth a chyflogau isel, wedi'u cplysu'n aml â diffyg sgiliau, yn gwneud iddynt deimlo nad yw'n werth iddynt hyd yn oed ymgeisio am swyddi.

Bydd y camau a gymerwn yn canolbwyntio ar:

- oedolion sy'n anodd eu cyrraedd sydd â sgiliau isel
- cydnabod gwerth paratoi pobl ar gyfer cael swydd gyflogedig
- gwaith allgymorth dwys
- cynnig hyfforddiant at atebion yn lleol

Mae 'Ynglŷn â: Gwaith yn Sir y Fflint', sef Strategaeth Gyflogaeth Sir y Fflint yn nodi bod:

- 39% o gwmnïau Sir y Fflint yn credu bod bwlch sylweddol rhwng y sgiliau generig sydd eu hangen ar fusnesau a'r sgiliau sydd gan ymgeiswyr.
- 18% wedi cofnodi bod bwlch sylweddol yn sgiliau eu gweithwyr presennol.
- 1.1% o bobl o oedran gweithio yn Sir y Fflint yn dibynnu ar fudd-daliadau i'r di-waith gan gynnwys 7.2% sy'n cael budd-dal analluogrwydd, 1.6% sy'n cael budd-dal rhiant unigol ac 1.2% sy'n cael budd-dal anabled. Mae hyn yn cyfateb i 10250 o bobl o oedran gweithio nad ydynt yn cael y manteision sydd ynghlwm wrth weithio.

'Ynglŷn â: Gwaith yn Sir y Fflint' yw'r strategaeth gyntaf i ymwneud yn benodol â chreu gwaith yn y sir. Mae chwe agwedd ar y strategaeth hon:

1. Gwireddu amcanion - gweithio mewn partneriaeth, cydnabod a dathlu llwyddiant
2. Estyn allan - darparu gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau cynghori
3. Rhyddhau potensial - darparu hyfforddiant, cymorth cyn ac ar ôl cael gwaith, a phrofiad gwaith
4. Lleihau rhwystrau - darparu gwasanaethau cymorth i greu mwy o gyfleoedd
5. Parchu cydraddoldeb ac amrywiol - darparu ar gyfer anghenion grwpiau dan anfantais
6. Ymateb i anghenion cyflogwyr - darparu hyfforddiant i greu gweithwyr sydd â'r sgiliau sydd ei hangen ar gyflogwyr

Mae unigolion sy'n anweithredol yn economaidd eisoes yn wynebu nifer o broblemau sy'n eu rhwystro rhag bod yn rhan o'r farchnad lafur. Gan hynny, o ystyried bod mwy o swyddi'n cael eu colli o hyd, yr her i Sir y Fflint yw cynnig rhagor o gymorth a hyfforddiant i'r rhai sy'n awyddus i weithio.

Mae angen cael hyd i atebion lleol i anghenion lleol a chydabod bod angen datblygu sgiliau meddal a gwaith gwirfoddol a helpu pobl i fod yn fwy gweithgar yn raddol cyn dilyn cwrs hyfforddi achrededig neu waith yn y brif ffrwd.

Fel llawer o siroedd eraill, mae Sir y Fflint yn awr yn ceisio datblygu prosiectau i helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant, ac i gefnogi BBaCh lleol drwy geisiadau posibl am arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a chynlluniau ariannu eraill.

Yn sgil argymhellion Strategaeth Gyflogaeth Sir y Fflint mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r prosiectau a ganlyn:

- Crëwyd swydd ar gyfer Swyddog Cyflogaeth a Datblygu Ewropeaidd
- Datblygwyd Gr?p y Strategaeth Gyflogaeth ar y cyd â phartneriaid allweddol
- Mae partneriaeth Dysgu Cymunedol mewnol yn cael ei datblygu
- Penderfynwyd rhoi arian i'r prosiect Tîm Gweithredu Hyfforddiant Cyflogaeth fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig, a chaiff ei gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
- Cafodd Genesis arian am 6 mlynedd i gynyddu gweithgarwch economaidd ymhlith y rhai anoddaf i'w cyrraedd
- Cafodd Doethwaith arian fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig i'w gwneud yn haws i bobl gael gwaith
- Rhoddwyd cymorth i brosiect Busnesau'n Gweithredu dros y Digartref sy'n rhan o raglen Busnes yn y Gymuned
- Rhoddwyd cymorth i'r Farchnad Lafur Drosiannol i greu profiad gwaith strwythuredig i bobl sy'n economaidd anweithgar
- Rhoddwyd cymorth i PRIME CYMRU i dreialu prosiectau mentora i bobl h?n i'w helpu i gael gwaith
- Mae ReACT yn cael cymorth er mwyn helpu pobl sydd wedi colli eu swydd i gael hyd i waith
- Mae rhaglen ProACT yn cael cymorth i roi hyfforddiant i bobl sydd mewn perygl o golli eu swyddi

Mae'r prosiectau is-ranbarthol a ganlyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac maent yn bwriadu gwneud cais am gyllid allanol:

- Ehangu Shuttle Glannau Dyfrdwy a'i gwneud yn haws cael gwaith a hyfforddiant
- Cynorthwyo pobl ifanc sy'n gadael y system gofal i gael hyfforddiant, addysg neu waith
- Cydgysylltydd Busnes i helpu i ddatblygu Par Diwydiannol Glannau Dyfrdwy gan gynnwys meithrin cysylltiadau â chyflogwyr

Mae'r prosiectau a ganlyn yn cael eu datblygu gyda chyrff sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor ac maent yn bwriadu gwneud cais am gyllid allanol:

- Y Farchnad Lafur Drosiannol - gogledd-ddwyrain Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredol Gwirfoddol Cymru
- Menter Cyflogaeth Deuluol mewn partneriaeth â BTCV Cymru

Mae'r prosiectau a ganlyn ar y gweill fel rhan o Gynghair Mersi a Glannau Dyfrdwy

- Make - It in Manufacturing - mewn partneriaeth â Sefydliad Gweithgynhyrchu Gogledd-orllewin Lloegr a rhanbarth Cynghair Mersi a Glannau Dyfrdwy

Yn ôl amcanion y Strategaeth Adfywio mae angen:

1. Datblygu rôl Grŵp y Strategaeth Gyflogaeth ymhellach, gan ganolbwyntio'n benodol ar y broses o gydgysylltu rhaglenni cyflogaeth yn effeithiol.
2. Cydgysylltu Dysgu Cymunedol yn effeithiol ledled yr awdurdod lleol ac mewn partneriaeth â chyrff eraill.
3. Hybu dysgu Gydol Oes ymhellach mewn partneriaeth ag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant.
4. Datblygu partneriaethau â chyflogwyr ymhellach i helpu pobl ifanc i bontio rhwng yr ysgol a byd gwaith.
5. Gwneud ceisiadau am ragor o arian gan yr UE a chan ffynonellau allanol i ddatblygu a chynnal prosiectau newydd a phrosiectau presennol yn y sir ac yn is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru / Gorllewin Swydd Gaer.
6. Datblygu ymhellach rôl Cyngor Sir y Fflint fel cyflogwr yn y gymuned.
7. Hybu twf gweithgynhyrchu gwerth uchel drwy gynnig rhaglenni sy'n meithrin sgiliau i hyrwyddo technolegau newydd a chynnal sgiliau lefel uchel.
8. Hybu ReACT / ProACT yn y sir a'r ardal gyfagos i helpu busnesau i gadw a/neu gynorthwyo gweithwyr mewn cyfnod economaidd anodd.

Thema 3.2 | Mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae tlodi'n effeithio'n bennaf ar y rhai: sydd mewn gwaith ond ar incwm isel; sydd â chyfrifoldebau gofalu; sydd â sgiliau isel; sydd â swydd dros dro neu swydd dymhorol; sydd â salwch meddyliol neu gorfforol neu sydd ag anableddau; neu'n ddibynnol ar fudd-daliadau. Nid tlodi'n unig sy'n gyfrifol am allgau pobl yn gymdeithasol. Term cyfleus ydyw ar gyfer yr hyn a all ddigwydd pan fydd pobl yn wynebu cyfuniad o broblemau cysylltiedig, fel iechyd gwael, diweithdra, gwahaniaethu, sgiliau gwael, incwm isel, tai gwael, lefel uchel o drosedd a chwalfa deuluol. Mae'r problemau hyn yn gysylltiedig ac maent yn eu hatgyfnerthu'i gilydd."

Un o brif gasgliadau'r adroddiad, Diffinio a Disgrifio Tlodi ac Anfantais Cysylltiedig yn Sir y Fflint, a gomisiynwyd gan Rwydwaith Lles Sir y Fflint, oedd bod llawer o bobl yn wynebu mwy nag un ffactor a all gyfrannu at dlodi a'i anfantaision cysylltiedig.

Cydnabyddir bod tlodi ac amddifadedd yn cael effaith andwyol ar iechyd yn gyffredinol ac y bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at ddiweithdra, colli incwm ac anfantais. Yn ogystal â hyn, i rai pobl ifanc, gall ffactorau fel profiad negyddol o addysg ac amgylchedd lle mae trosedd yn gyffredin, ei gwneud yn fwy tebygol iddynt gael eu hallgáu ymhellach yn gymdeithasol.

Yn aml iawn, y rheini sydd fwyaf tebygol o gael eu hallgáu yw'r anoddaf i'w hannog i fanteisio ar wasanaethau. Mae'n rhaid newid y sefyllfa hon er mwyn targedu gwasanaethau'n briodol a'u haddasu ar gyfer anghenion unigolion. Mae gan y sectorau gwirfoddol a chymunedol ran bwysig yn aml yn y gwaith o gynnwys grwpiau sydd wedi'u hallgáu.

Yn Sir y Fflint mae nifer o gymunedau sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pocedi o dlodi ac amddifadedd wedi'u gwasgaru ledled y Sir, ac maent wedi'u crynhoi'n arbennig yn yr ardaloedd hynny a dargedir gan raglen Cymunedau'n Gyntaf. Mae tlodi i'w gael, fodd bynnag, drwy'r sir i gyd ond mae modd i'r cyfoeth sydd i'w weld yn yr ardaloedd hyn gelu'r tlodi hwn sy'n golygu ei bod yn anoddach nodi a thargedu'r bobl y mae angen eu cynorthwyo.

Caiff y Strategaethau Tai ac Adfywio eu cyflwyno drwy gymryd camau integredig i sicrhau bod buddsoddiadau mewn tai yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Rhoddir blaenoriaeth i waith a wneir ar y cyd ar y Safon Ansawdd Tai, y rhaglen adnewyddu tai a chynlluniau tlodi tanwydd, yn ogystal â phrosiectau i gefnogi hawliau lles.

Byddwn yn datblygu dulliau cydgyssylltiedig o asesu a diwallu anghenion unigolion. Daw darparwyr gwasanaethau ynghyd er mwyn sicrhau bod cymunedau difreintiedig yn gallu manteisio arnynt. Yn benodol, rhoddir cymorth i wasanaethau cynghori, prosiectau llythrennedd ariannol, mentrau cyllid cymunedol a gweithgareddau i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau sy'n ddyledus iddynt.

Drwy weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, bydd cyfle i fanteisio ar gryfderau'r ddwy sector i ymdrin â phroblemau cymhleth ac i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol er enghraifft, ar hyd o bryd mae Cyngor Sir y Fflint yn ariannu Cyngor Ar Bopeth (CAB) i roi gwasanaethau cynghori. Mae CAB wedi llwyddo i gael arian ychwanegol o ffynonellau eraill gan gynyddu'r buddsoddiad gwreiddiol bedair gwaith.

Mae mentrau cymdeithasol yn ddull arall o greu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant. Busnesau sy'n creu prosiectau i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol neu amgylcheddol yw mentrau cymdeithasol ac mae enghreifftiau'n cynnwys Flintshire Refurbs (ailgylchu dodrefn), Undeb Credyd Sir y Fflint (cyllid) a Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint (addysg a hyfforddiant amgylcheddol). Mae'r sector hon yn cynnig ffordd o gael hyfforddiant a gwaith i'r rheini sy'n ei chael yn anodd ymuno â'r farchnad gyflogaeth draddodiadol.

Dyma amcanion y Strategaeth Adfywio:

1. annog hyblygrwydd yn y gweithle er mwyn i bobl fedru cyfuno gwaith â'r newidiadau yn eu hamgylchiadau personol e.e. eu hiechyd a'u cyfrifoldebau gofalu;
2. creu partneriaethau cryf â'r sector gwirfoddol i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol;
3. cefnogi gwaith partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf a rhaglenni datblygu cymunedol eraill yn Sir y Fflint;

4. gwella sgiliau i helpu pobl i ennill cyflog ac i'w gwneud yn llai tebygol o fod yn ddiwaith ac o ddiodef yr anfanteision cysylltiedig;
5. rhoi arweiniad a chymorth i gadw pobl yn y gweithle;
6. creu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, cost-effeithiol a hyblyg, e.e. drwy ddefnyddio gwasanaethau teithiol a rhannu cyfleusterau a fydd yn ei gwneud yn haws defnyddio gwasanaethau;
7. cydgysylltu cymorth yn well i helpu pobl sy'n ei chael yn anodd cael addysg, gwaith neu waith gwirfoddol;
8. defnyddio'r cyfleoedd a gaiff eu creu drwy fuddsoddi mewn tai i leihau tlodi tanwydd, i wella cymdogaethau, i ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u hallgáu a gwella cyfleusterau cymunedol;
9. gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng tlodi, iechyd, anfantais a diweithdra;
10. meithrin gallu cymunedau a datblygu'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt;
11. ei gwneud yn haws cael gwaith, manteisio ar wasanaethau a chyfleusterau hamdden
12. datblygu menter gymdeithasol fel dull o greu swyddi a busnesau newydd ac fel dull o ddarparu gwasanaethau.

Themâu trawsbynciol

Mae'r Strategaeth wedi'i seilio ar bedair thema drawsbynciol:

Thema 1 | Cynaliadwyedd

Mae'r Strategaeth Adfywio'n cynnig y dylid cymryd nifer o gamau i geisio gwella ffyniant economaidd y sir. Wrth sicrhau nad yw'r camau hyn yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd byd-eang a lleol, mae angen i'r Strategaeth fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r amgylchedd lleol yn eu cynnig. Mae modd gwneud hyn drwy hyrwyddo datblygu cynaliadwy a drwy reoli adnoddau amgylcheddol yn gynaliadwy.

Mae datblygu cynaliadwy drwy'r DU yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth i'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Y newid yn yr hinsawdd ac ynni – lliniaru ac addasu
- Ynni'r tu hwnt i olew – problemau cyflenwi
- Defnyddio a chynhyrchu ynni'n gynaliadwy
- Diogelu adnoddau naturiol a gwella'r amgylchedd
- O'r lleol i'r byd ehangach: creu cymunedau cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno ar y blaenoriaethau allweddol hyn. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i roi dyletswydd arni ei hun i ddarparu gwasanaethau gan lynu at egwyddorion datblygu cynaliadwy ac mae'n hyrwyddo'r canlynol:

- Cynllun Datblygu Cynaliadwy – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned
- Economi Ddi-garbon
- Swyddi Gwyrdd i Gymru
- Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd - Datganiad Polisi Lefel Uchel
- Strategaeth Amgylcheddol

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu'n unol â'i Bolisi Amgylcheddol sydd wrth wraidd y gofyniad i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lleol. Mae'r Cyngor wedi cyrraedd Lefel 3 y Ddraig Werdd ac wedi llofnodi Datganiad Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Yr Amgylchedd yw un o themâu'r Cynllun Cymunedol ac mae prosiect cychwynnol yn ystyried lliniaru ac addasu carbon. Yn ogystal â hyn, mae cynllun peilot, sef Newid Hinsawdd: Newid Lleoedd Cymru Gyfan a fydd yn archwilio cynlluniau wrth gefn lleol drwy addasu i ddigwyddiadau lleol drwy newid arferion a lleoliadau gwaith.

Mae fframwaith monitro manwl ar gyfer y thema drawsbynciol hon ynghlwm isod.

Thema 2 | Cynhwysiant Cymdeithasol

Mae'r Strategaeth Adfywio'n ceisio lleihau annhegwch a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a thlodi: mae gweithgareddau'r trydydd amcan, "Cyflogaeth a Sgiliau" yn canolbwyntio'n llwyr ar y thema hon. Wrth gyflwyno prosiectau, byddant yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod anghenion amrywiol y bobl y mae'r prosiectau'n effeithio arnynt wedi'u nodi a'u diwallu.

Thema 3 | Y Gymraeg

Y Gymraeg yw un o asedau pwysicaf Sir y Fflint. Yn 2001, roedd dros 20,000 o bobl yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Strategaeth yn cynnwys nifer o gynlluniau i hyrwyddo ac i ddiogelu'r Gymraeg. Mae'r gweithgareddau a nodir o dan yr amcan "Cymunedau Cynaliadwy" yn canolbwyntio ar iaith, diwylliant a threftadaeth yr ardal ac ar ddatblygu "ymdeimlad cryfach o le".

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu yn dwyn y teitl Iaith Pawb, sy'n awgrymu camau i'w cymryd i annog rhagor o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i fanteisio i'r eithaf ar ei photensial economaidd, ac mae llawer o'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn Sir y Fflint. Mae hefyd yn awgrymu camau i'w cymryd drwy ddatblygu gwledig a thwristiaeth i ddod â budd economaidd i'r sir ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y strategaethau a'r cynlluniau gweithredu perthnasol.

Yn ogystal â hyn, bydd angen i'r holl weithgareddau a gynigir yn y Strategaeth fodloni gofynion Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir y Fflint.

Thema 4 | Datblygu delwedd Sir y Fflint

Er y bu twf economaidd cryf yn Sir y Fflint yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes gan y sir ddelwedd weladwy gref. Mae delwedd gref yn helpu i greu ymdeimlad o le a gall ennyn balchder lleol. Y mae hefyd yn elfen bwysig yn y broses o sicrhau buddsoddiad allanol – bydd ardaloedd sydd â delwedd wael yn ei chael yn anodd denu buddsoddiad.

Mae gan y sir stori dda i'w hadrodd. Mae ganddi gysylltiadau trafndiaeth da ac maent yn parhau i wella, mae ganddi economi gref a llawer o gwmnïau cyfarwydd wedi'u lleoli yma, amgylchedd da ac ansawdd bywyd da.

Byddwn yn adolygu'r modd rydym yn tynnu sylw at ein llwyddiannau ac yn hyrwyddo potensial y sir er mwyn denu buddsoddwyr. Byddwn yn cysylltu hyn â marchnata'r hyn sydd gan Sir y Fflint i'w gynnig i ymwelwyr fel sir ar y gororau, sydd â threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, ond sy'n gyfleus i ymwelwyr, busnesau a marchnadoedd gogledd-orllewin Lloegr.

Bydd y modd y caiff y themâu trawsbynciol hyn eu mabwysiadu ei fonitro yn ystod oes y Strategaeth a chaiff effaith gyffredinol y Strategaeth ei hasesu a'i chofnodi bob blwyddyn.

Y fframwaith monitro

Mae'r tair elfen i'r fframwaith:

- Mae'r Strategaeth gyffredinol yn nodi'r prif ganlyniadau a gaiff eu sicrhau yn ystod y blynyddoedd cynnar.
- Bydd pob prosiect yn y Strategaeth yn nodi'r canlyniadau y bydd yn ceisio'u sicrhau, e.e. swyddi newydd; busnesau newydd; nifer yr ymwelwyr, fel rhan o'r gwaith cynllunio.
- Disgwylir i bob prosiect amlinellu'r hyn y mae'n ei gyflawni er mwyn sicrhau'r canlyniadau hyn e.e.: nifer y busnesau a gafodd gyngor; nifer y grantiau a roddwyd; nifer y gwelliannu ffisegol a wnaed; trosoledd y sector breifat etc.

Bydd y fframwaith hwn yn sicrhau bod y Strategaeth yn gyffredinol yn cael ei monitro o ran y cynnydd a wneir tuag at sicrhau'r prif ganlyniadau, o ran y themâu trawsbynciol, ac o ran yr hyn a gyflawnir dros gyfnod. Bydd angen bod yn hyblyg er mwyn medru ymateb i amgylchiadau newydd.

Caiff y Strategaeth Adfywio'i hadolygu bob blwyddyn. Yn ystod y broses adolygu, caiff y dystiolaeth a gesglir yn ystod y 12 mis ei harchwilio i asesu:

- a yw'r weledigaeth, yr amcanion a'r cynllun gweithredu gwreiddiol yn dal yn berthnasol ynteu a oes angen eu haddasu oherwydd amgylchiadau newydd;
- a yw'r Strategaeth yn gwneud cynnydd boddhaol ac yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a bennwyd ar y dechrau, ynteu a oes angen addasu'r canlyniadau hynny oherwydd amgylchiadau newydd, ac a oes angen gweithgareddau newydd i sicrhau bod y Strategaeth yn cyrraedd ei thargedau;
- a yw prosiectau unigol yn y Cynllun Gweithredu'n bodloni'r canlyniadau disgwylidig;
- a yw prosiectau'n cyrraedd y cerrig milltir disgwylidig, ynteu a oes angen newid cyfeiriad y prosiectau;
- a yw gweithgareddau'r Strategaeth yn cael effaith fesuradwy ar y pedair thema drawsbynciol;
- a yw'r partneriaid yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o gyflwyno'r Strategaeth ac a oes cyfleoedd i weithio ar y cyd;
- pa wersi a ddysgwyd ac y gellir eu cymhwyso neu eu rhannu yn y dyfodol.

Caiff adroddiad yr adolygiad ei ddsbarthu i'r:

- cyhoedd drwy gyfrwng gwefan y Cyngor;
- aelodau'r Cyngor drwy'r pwyllgor gweithredol a'r pwyllgorau craffu;
- partneriaid a phartneriaethau strategol;
- cyrff ariannu.

Monitro'r thema drawsbynciol, cynaliadwyedd amgylcheddol

Caiff effaith y camau a gymerir ei monitro a'i mesur yn ôl y lefelau a ganlyn:

- y lefel isaf, Lefel 1, os yw'r gweithgaredd yn creu ymwybyddiaeth o'r canlyniadau amgylcheddol.
- yr ail lefel, Lefel 2, os yw'r gweithgaredd yn annog neu'n hybu cymryd camau i fynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol.
- y lefel uchaf, Lefel 3, lle mae'r gweithgaredd yn llwyddo i newid yr amgylchedd yn fesuradwy neu'n gwella cynaliadwyedd.

Bydd y Strategaeth Adfywio'n ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'n cyflwyno proses werthuso a fydd yn:

- cadarnhau bod yr holl weithgarwch yn bodloni safonau sylfaenol cynaliadwyedd amgylcheddol;
- nodi pa flaenoriaeth y bydd yn ymdrin â hi ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol;
- pennu'r materion amrywiol y bydd yn ymdrin â nhw e.e. y newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon, ôl-troed carbon; polisiau prynu cynaliadwy; ailgylchu; bioamrywiaeth; cynnyrch lleol ac ynni adnewyddadwy lleol;
- penderfynu beth a gyflawnwyd;
- nodi sut y cawsant eu cyflawni.

Mae'r dulliau o fonitro cynnydd yn cynnwys:

- Achrediaeth y Ddraig Werdd Lefel 1, 2 a 3 – yn amrywio o ddatblygu polisi amgylcheddol i werthuso effaith busnesau ac i roi newidiadau ar waith.
- BACLIAT (Dull Asesu Effaith yr Hinsawdd mewn Ardaldaloedd Bsnes)
- Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, Asesu Effaith ar y Gymraeg ac Asesu Effaith ar Iechyd – i asesu lefelau cydlynid cymunedol, cydraddoldeb mewn cymunedau a'r hyn a all ddigwydd yn y dyfodol.

Mae'r tair lefel yn adlewyrchu'r gwahanol fanteision amgylcheddol posibl a all ddeillio o'r Strategaeth. Mae Lefel 1 yn cyrraedd safon sylfaenol cynaliadwyedd amgylcheddol, mae Lefel 2 yn cyrraedd safon ddymunol ac mae Lefel 3 yn cyrraedd y safon ddefnyddol. Bydd yr holl weithgareddau a'r holl gamau a gymerir drwy'r Strategaeth Adfywio'n cael effaith economaidd, waeth pa mor fach ac, felly, dylai pob un gyrraedd Lefel 1 o leiaf.

Atodiad 1 | Polisiâu a Strategaethau

- Cymru: Economi yn Ffynnu (Llywodraeth Cymru) (2005)
- Cymru'n Un (Llywodraeth Cymru) (2007-2011)
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (Llywodraeth Cymru) (2010)
- Cynllun Gofodol Cymru (Llywodraeth Cymru) (2004, 2008)
- Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (Llywodraeth Cymru) (2008)
- Creu'r Cysylltiadau (Llywodraeth Cymru) (2004)
- Datganiad o Anghenion a Blaenoriaethau Rhanbarth Gogledd-ddwyrain Cymru
- Strategaeth Ofodol Is-ranbarth Gorllewin Swydd Gaer / Gogledd-ddwyrain Cymru (2006-2021)
- Cynllun Busnes Cynghrair Mersi a Dyfrdwy (2005-2009)
- Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint (2004-2020)
- Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint (2000-2015)
- Cynllun y Cyngor (2006-2009)

Atodiad 2 | Sail tystiolaeth

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ymgymryd â chryn dipyn o waith a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r strategaeth hon. Rhoddodd hyn sail tystiolaeth sylweddol i ni a gwell dealltwriaeth o sefyllfa economaidd-gymdeithasol Sir y Fflint - busnes, pobl a lleoedd.

Mae'r ffynonellau'n cynnwys:

- Gweledigaeth Bwrdd Gwasanaethau Lleol Cyngor Sir y Fflint – Datganiad Uchelgais ar yr Economi
- Proffil o Sir y Fflint 2008
- Yr Economi: Ffocws ar Gymru, (Swyddfa Cymru/Llywodraeth Cymru Hydref 2008)
- Strategaeth Datblygu Gwledig Sir y Fflint 2007-13
- Strategaeth Twristiaeth Sir y Fflint 2008-13
- Strategaeth Cyflogaeth Sir y Fflint 2005-10
- Astudiaeth o Gyflwr Canol Trefi Sir y Fflint, (Roger Tym and Partners Hydref 2008)
- Strategaeth Iechyd Da, Gofal Da 2008-2011
- Gweddnewid Addysg a Hyfforddiant yn Sir y Fflint: Rhaglen Strategol Amlinellol ar gyfer disgyblion 14-19 ac ôl 16
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Cynllun Cyfarwyddiaeth Drafft - Dysgu Gydol Oes
- Strategaeth 14-19 Drafft
- Strategaeth Gwasanaethau Ieuentid
- Diffinio a disgrifio tlodi ac anfantais gysylltiedig yn Sir y Fflint, 2007
- Asesu Marchnad Dai Leol Sir y Fflint
- Y Strategaeth Dai Leol
- Y Polisi Adnewyddu
- Astudiaeth Tir Cyflogaeth Sir y Fflint (DPDS Chwefror 2009)

Atodiad 3 | Dadansoddiad Ystadegol

Economi Sir y Fflint

Mae gan Sir y Fflint, yn gyffredinol, economi gymysg iach a sylfaen gweithgynhyrchu cryf. Mae'n fwy llwyddiannus o ran GYC y pen na chyfartaledd Cymru gyfan, ond yn llai na chyfartaledd y DU. Mae gan boblogaeth y sir fwy o gymwysterau na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU ac mae cyfradd diweithdra'n is. O ran gweithgarwch economaidd, mae perfformiad Sir y Fflint yn well na pherfformiad Cymru a'r DU, ac eithrio cyfraddau cofrestru busnesau; yn y cyswllt hwn, nid yw ffigurau Sir y Fflint cystal â'r ffigurau ar gyfer Cymru na'r DU.

Dangosydd Allweddol	Sir y Fflint	Cymru	DU
GYC y pen (Sir y Fflint a Wrecsam ar y cyd)	£16,442	£14,226	£18,945
Poblogaeth oedran gweithio fel % o'r boblogaeth gyfan	61.30%	60.30%	62.20%
Cyfradd gweithgarwch economaidd fel % o'r boblogaeth oedran gweithio	81.00%	75.80%	78.80%
Nifer y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith fel % o'r boblogaeth oedran gweithio	3.20%	3.80%	3.40%
% sydd â chymwysterau lefel 4+	23.00%	25.40%	28.60%
% heb gymwysterau o gwbl	10.50%	15.40%	13.10%
Cyfradd cofrestru busnes (cof/1bob 10k o'r boblogaeth)	29	37	49
Nifer y rhai sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd fel % o'r boblogaeth oedran gweithio	7.20%	10.60%	7.00%
Canolrif enillion cartrefi	£22,927	£22,116	£24,924

Tabl 1 | Dangosyddion allweddol

Ardal y gororau yw Sir y Fflint, sy'n pontio traddodiad diwydiannol gogledd-ddwyrain Lloegr a phrydferthach gwledig gogledd Cymru ac Aber Afon Dyfrdwy.

Mae ei lleoliad yn strategol bwysig, gan mai'r ardal hon yw'r prif gyswllt rhwng gogledd Cymru a rhwydwaith traffyrdd gogledd-orllewin Lloegr a'r tu hwnt.

Yn dilyn cyfnod hir o ddirywiad diwydiannol, cafwyd cyfnod o ailstrwythuro eang a llwyddiant economaidd cyson. Mae'r Sir wedi adeiladu ar ei chryfderau o ran prosesau diwydiannol, uwch gynhyrchu, y diwydiant awyrofod a thechnoleg bwyd a'r amgylchedd. Sir y Fflint yn awr yw un o ardaloedd cynhyrchu pwysicaf Cymru, ac mae tuag ugain y cant o'r holl swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru i'w cael yn yr ardal hon. Mae'r cwmnïau rhyngwladol yn cynnwys Airbus UK, Toyota, Corus, UPM Kymmene, Warwick International a Convatec. Tyfu hefyd mae'r sector gwasanaethau, yn enwedig Technoleg Gwybodaeth a chyllid. Mae cwmnïau Moneysupermarket.com ac Unilever, yn gyflogwyr mawr.

Ar hyn o bryd mae 6,800 o fusnesau'n masnachu yn y sir, mae 94% ohonynt yn cyflogi llai na 50, ac mae hyn yn cyfateb i 38% o'r holl swyddi. Ar y llaw arall, mae 4% o gwmnïau yn Sir y Fflint yn cyflogi dros 50, ac yn gyfrifol am 47% o'r holl swyddi.

Nifer y gweithwyr	% o'r busnesau	% o'r swyddi
0-50	94%	38%
50-250	4%	47%
250+	2%	15%

Tabl 2 | Nomis Statistics, 2005

Mae pwysigrwydd BBACh i economi Sir y Fflint a'r DU felly'n arwyddocaol dros ben ac mae angen cryfhau'r sector hon ymhellach yn ystod y cyfnod presennol o gygni economaidd; mae 1200 o swyddi eisoes wedi diflannu ers mis Ionawr 2006 .

Mae Sir y Fflint yn cyfrannu tua 60% at y £4,269 miliwn o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth gogledd-ddwyrain Cymru. Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yw un o ganolfannau cyflogaeth mwyaf Cymru lle mae dros 600 o fusnesau'n cyflogi dros 10,000 o bobl. Cyflogir 34.54% o'r holl weithlu yn y sector gweithgynhyrchu. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru yw 13.4% a 10.9% ar gyfer y DU. Gan fod y sylfaen busnes wedi'i ailstrwythuro i greu gwaith â gwerth ychwanegol, mae'r sefyllfa economaidd yn wahanol iawn i'r hyn ydoedd pan oedd y sir yn wynebu cyni economaidd ar ddechrau'r 1990au. Oherwydd y newidiadau hyn yn sylfaen busnes Sir y Fflint, mae cyfleoedd hirdymor gwirioneddol yn y sir, gan fod gan y sir gryfderau a'r fantais o fedru cynnig cyfleoedd yn y sectorau hynny sy'n debygol o fedru gwrthsefyll y problemau byd-eang presennol.

	Gweithgynhyrchu	Adeiladu	Gwasanaethau	Twristiaeth
Sir y Fflint	34.5%	5.8%	59%	7%
Cymru	13.4%	5.3%	79.6%	8.9%

Tabl 3 Swyddi'n ôl sector (Cyfrifiad 2001)

Mae economi Sir y Fflint yn debycach i economi ardaloedd cyfagos yn Lloegr na gweddill gogledd Cymru. Oherwydd y buddiannau economaidd a chymunedol cyffredin hyn, sefydlwyd Cynghrair Mersi a Dyfrdwy rhwng gorllewin Swydd Gaer, Cilgwri ac ardaloedd gogledd-ddwyrain Cymru. Awdurdodau Swydd Gaer, Caer, Sir Ddinbych, Ellemere Post a Neston, Sir y Fflint, Cilgwri, Wrecsam, ynghyd â Llywodraeth Cymru a Merseytravel sy'n arwain y Gynghrair hon.

Mae'r bartneriaeth yn trin yr ardal fel is-ranbarth economaidd sydd â phoblogaeth o oddeutu 930,000 ac a rennir â ffin genedlaethol. Bydd partneriaid yn cytuno i gydweithio i hybu buddiannau strategol cyffredin er lles dyfodol economaidd yr ardal teithio-i'r-gwaith, a hwyluso dull cydlynol o ymdrin â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Sefydlwyd partneriaeth Cynghrair Mersi a Dyfrdwy ym mis Ebrill 2007. Datblygwyd strategaeth gyffredin i helpu'r ardal i fod yn fwy cystadleuol er mwyn sicrhau ei dyfodol yn yr hirdymor, drwy weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion y gwir economi sy'n gweithredu'r tu hwnt i gyfyngiadau ffiniau a gweinyddiaethau.


Newidiadau demograffig

Yn unol â gweddill y DU, bydd poblogaeth Sir y Fflint yn heneiddio yn ystod y blynyddoedd nesaf (tabl 4). Yn ogystal â rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau, bydd hyn yn effeithio ar y Sir mewn ffyrdd eraill hefyd, gan gynnwys: rhagor o'r gweithlu'n ymgymryd â rôl gofalu, yr angen i gadw gweithwyr hyn drwy newid patrymau gwaith; ac ymdopi â marchnad lafur dynnach.

Rhagamcanion poblogaeth yn ôl oedran	1991	2005	2026
O dan oedran gweithio (17 neu'n iau)	24%	22%	18%
Oedran gweithio (18 - 59/64)	59%	59%	54%
Hŷn na'r oedran gweithio (60/65 neu hŷn)	17%	19%	28%

Tabl 4 Rhagamcanion poblogaeth yn ôl oedran
Ffynhonnell: Proffil o Sir y Fflint 2008

Ardaloedd o amddifadedd



Amddifadedd cyffredinol – cymdogaethau ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Eglurhad: ■ 10% ■ 20%


Map yn dangos amddifadedd cyffredinol
Ffynhonnell: MALIC

Er bod Sir y Fflint yn gyffredinol yn perfformio'n well na Chymru gyfan, mae pocedi o amddifadedd o hyd lle nad yw pobl yn elwa o ffyniant gweddill y sir.

Mae'r map yn dangos yr ardaloedd o amddifadedd ar hyd a lled Sir y Fflint, fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2008. Yr ardaloedd sydd ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yw Treffynnon, Maes Glas, Shotton, yr Wyddgrug a'r Fflint. Mae ardaloedd eraill sydd ymhlith yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru hefyd i'w cael yn ardaloedd trefol Sir y Fflint, sy'n golygu bod rhywfaint o amddifadedd ym mhob tref.

Mae amddifadedd wedi'i grynhoi mewn ardaloedd penodol yn Sir y Fflint sy'n galw am ymateb amlasiantaeth integredig. Yn ogystal â hyn, fodd bynnag, mae amddifadedd ac allgáu cymdeithasol yn digwydd ar lefel fwy gwasgaredig ledled Sir y Fflint, ac mae'r enghreifftiau hyn yn llai amlwg, yn anoddach eu cyrraedd a'u cynorthwyo'n effeithiol.

Mae llawer o ardaloedd difreintiedig Sir y Fflint yn cael cymorth drwy raglen Cymunedau'n Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd lluosog difrifol, fel y gwelir ar y map.



Cymdogaethau Cymunedau'n Gyntaf

Eglurhad: ■ Ardaloedd dynodedig Cymunedau'n Gyntaf

*Cymdogaethau Cymunedau'n Gyntaf
Ffynhonnell: Cyngor Sir y Fflint*

Atodiad 4 | Rhestr termau

AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
APADOS	Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
BACLIAT	Dull Asesu Effaith yr Hinsawdd ar Ardaloedd Busnes
BBaCh	Busnesau Bach a Chanolig
BTCV	Ymddiriedolaeth Prydain dros Wirfoddolwyr Cadwraeth
CAB	Cyngor Ar Bopeth
CADWYN	Cadwyn Clwyd
Cittaslow	Corff rhyngwladol sy'n hyrwyddo gwerthoedd trefi araf
ESF???	European Social Fund
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
EU	European Union
FCC	Flintshire County Council
FE	Further Education
FLVC	Flintshire Local Voluntary Council
HE	Higher Education
HVA	High Value Added
KIBs	Sector Busnes Gwybodaeth Ddwys
LSB	Local Service Board
MDA	Mersey Dee Alliance
NOMIS	Cronfa ddata ar y we o ystadegau'r farchnad lafur
Gororau Gogledd Cymru	Ardal Marchnata Twristiaeth

NVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
PRIME CYMRU	Elusen Ymddiriedolaeth y Tywysog sy'n helpu pobl yng Nghymru, 50+
ProACT	Rhaglen Cymorth i Gyflogwyr
ReACT	Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau
R&D	Research and Development
RDP	Rural Development Plan for Wales
RSL	Registered Social Landlord
SLOT	Cryfderau, Cyfyngiadau, Cyfleoedd, Bygythiadau
SME	Small and Medium sized Enterprises
WAG	Welsh Assembly Government
WCBC	Wrexham County Borough Council
UE	Undeb Ewropeaidd